

Bwrdd **Diogelu**  
**Oedolion** Rhanbarthol  
Caerdydd a'r Fro

**BDORhCaF**

**C&VRSAB**

Cardiff & Vale of Glamorgan  
Regional **Safeguarding**  
**Adults** Board

# Gangiau Llinellau Cyffuriau - Sesiwn Frifio 7 Munud

Caerdydd a Bro Morgannwg  
Byrdd **Diogelu**  
**Oedolion** Rhanbarthol

**CaFBDOR**

**C&VRSAB**

Cardiff & Vale of Glamorgan  
Regional **Safeguarding**  
**Adults** Board

# 1. BETH YW E?

- ▶ Er nad oes diffiniad swyddogol, gweithgaredd llinellau cyffuriau fel rheol yw pan aiff gang troseddol trefol i leoliadau llai i werthu heroin/crac cocên
- ▶ Bydd y grŵp yn defnyddio un rhif ffôn ar gyfer cwsmeriaid yn archebu cyffuriau, yn cael ei weithredu o'r tu allan i'r ardal, a daw wedyn yn dod yn 'frand' iddynt.
- ▶ Mae'r gangiau yn tueddu i ddefnyddio eiddo lleol, fel arfer sy'n berchen i berson sy'n agored i niwed, fel canolfan i'w gweithgareddau. Caiff yr eiddo ei gymryd yn aml drwy rym neu orfodaeth (cogio), ac mewn rhai enghreifftiau mae dioddefwyr wedi gadael eu cartrefi yn ofni trais.

## 2. BETH YW E?

- ▶ Maen nhw'n defnyddio tactegau amrywiol i osgoi cael eu dal, gan gynnwys symud aelodau gangiau rhwng lleoliadau fel nad yw'r heddlu neu gystadleuwyr yn eu hadnabod, a defnyddio merched a phlant i gludo cyffuriau gan gredu y byddant yn llai tebygol o gael eu stopio a'u chwilio.

### 3. BETH YW E?

- ▶ Mae gangiau llinellau cyffuriau yn her sylweddol i oedolion a phlant sy'n agored i niwed, sef y rhai maent yn ddibynnu arnynt i gynnal a/neu hwyluso'r troseddu hyn.
- ▶ Mae dros 70% o heddluoedd Cymru a Lloegr, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, bellach yn adrodd am weithgaredd sydd wedi ymsefydlu yn eu hardaloedd.
- ▶ Mae aelodau gangiau fel rheol yn eu harddegau hwyr i ganol eu hugeiniau.

## 4. BETH YW E?

**Dyma rai o'r pethau sy'n cymell sefydlu hyn:**

- ▶ Cwsmeriaid parod
- ▶ Llai o gystadleuaeth
- ▶ Llai o risg o fod yn darged saethu
- ▶ Llai tebygol o fod yn hysbys i'r heddlu

**Tueddiadau Diweddar**

- ▶ Targedu oedolion â phroblemau iechyd meddwl
- ▶ Adroddodd 80% o heddluoedd fod camfanteisio ar blant yn digwydd, fel arfer i ddanfôn cyffuriau i gwsmeriaid

## 5. CYDNABYDDIAETH

- ▶ Caiff plant mewn ardaloedd trefol eu recriwtio gan gangiau i gludo cyffuriau ac arian i'r lleoliad sirol arall, yn aml ar drên ond hefyd mewn ceir a bysiau.
- ▶ Adroddir bod plant wedi aros mewn amodau gwael iawn mewn cyfeiriadau cogio sydd fel rheol yn eiddo i ddefnyddwyr cyffuriau Dosbarth A.

## 6. MATERION ALLWEDDOL

- ▶ Sut caf i ddysgu mwy?
- ▶ Sut caiff plant eu recriwtio?
- ▶ Beth yw'r arwyddion?
- ▶ A oes cysylltiadau â CRhB?

## 7. SUT I YMATEB

- ▶ Siaradwch ag arweinydd diogelu'ch asiantaeth os oes unrhyw bryderon gennych.
- ▶ Darllenwch Adroddiad yr Asiantaeth Drosedd Genedlaethol (Tach 2016)
- ▶ Canllaw'r Swyddfa Gartref: Camfanteisio troseddol ar blant ac oedolion agored i niwed llinellau cyffuriau (2017)
- ▶ *It's Not Okay*
- ▶ *Ymgyrch Trapped*

Caerdydd a Bro Morgannwg  
Byrdd Diogelu  
Oedolion Rhanbarthol

**CaFBDOR**

**C&VRSAB**  
Cardiff & Vale of Glamorgan  
Regional Safeguarding  
Adults Board